21.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Eisteddfod 2022 yn dod ag atgofion melys i Eleri Siôn

Bydd y gyflwynwraig fywiog a phoblogaidd Eleri Siôn yn mynd yn ôl i'w gwreiddiau mewn sawl ffordd wrth iddi ymuno a thîm darlledu S4C yn Eisteddfod Ceredigion eleni sy'n dechrau ar Nos Wener, 29 Gorffennaf.

O ddydd Sadwrn 30 Gorffennaf i ddydd Sadwrn 6 Awst, bydd Eleri Siôn, sy'n wreiddiol o Geredigion, allan ar y maes o 10 y bore tan 6 yr hwyr yn dod â'r clecs i gyd o faes yr Eisteddfod yn Nhregaron i wylwyr S4C.

"Fi mor ecseited bod yr Eisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion. Oni byth yn meddwl bydden i'n rhan o'r 'Steddfod o gwbl mewn unrhyw ffordd," meddai Eleri. "Felly  pan ges i'r alwad yn gofyn a licen i fod yn rhan o'r tîm cyflwyno, wel, yn amlwg oedd rhaid imi ddweud ie!

"Dwi'n mynd i fod yn *roving reporter*," meddai Eleri. "Sai ise siarad am barti cerdd dant; sai ise siarad am barti llefaru; dwi eisiau siarad gyda phobol, dyna be' dwi moyn neud!"

Ac mae Eleri wedi hen arfer a chrwydro'r maes ac yn cwrdd â phob math o bobl ddifyr a diddorol.

"Am flynydde oni'n neud y rôl bydda i'n neud yn yr Eisteddfod yn Nhregaron i Radio Cymru. Roedd y *backpack* mawr 'ma ar fy nghefn gydag *ariel CB radio* - oni fel Ghostbusters! Pob tro oni'n troi rownd, oni'n bwrw rhywun - odd e'n bach o *health and safety hazard*!

"Ond bydd hwnna ddim da fi tro 'ma - mae'n dangos sut mae technoleg wedi newid dros y blynydde. Mae'n mynd i fod yn lyfli. Er dwi'n gobeithio bo' nhw ddim yn mynd i weithio fi rhy galed!"

Mae Eleri yn gyfarwydd iawn â Thregaron gan fod ei mam yn dod o'r ardal.

"Felly mae mynd yn ôl i ardal Dregaron fel math o ganolfan diwylliedig i fi ac mae'n eitha' *nostalgic* oherwydd dyna lot o'r atgofion sydd 'da fi o fy mhlentyndod - cael fy nghodi gydag eisteddfodau."

Yn ôl Eleri, mae eisteddfodau wedi chwarae rhan fawr yn ei bywyd - nid yn unig y prif eisteddfodau fel yr Urdd a'r Genedlaethol, ond yr eisteddfodau lleol hefyd.

"Caeth fy mrawd (Meilyr Siôn) a minnau ein codi gydag eisteddfodau. Wi'n gwybod fy mod i'n *flippant* yn y ffordd dwi'n siarad ond mae mwy o ddiwylliant yn rhedeg trwy'r hen wythiennau ma nag efallai'r argraff dwi'n rhoi," meddai Eleri.

Felly beth oedd arbenigedd eisteddfodol Eleri? "Popeth! Maen nhw'n sôn am yr heptathlon neu'r decathlon yn yr Olympics? Wel oni'n adrodd, canu, dawnsio gwerin, cerdd dant, bydden i hyd yn oed yn chwarae'r piano - ac oni'n casáu chwarae'r piano.

"Dwi'n cofio bod yn eisteddfod Maenclochog unwaith ar y llwyfan - oni ddim wedi practeisio digon - ac yng nghanol fy mherfformiad byr i nesi golli'n lle a rhegi! Oni'n treial popeth. Oni hyd yn oed, mewn ambell eisteddfod, yn treial y gystadleuaeth lawysgrifen - dyna pa mor desprêt oni am fedal neu cash!"

Er ei bydd hi'n gweithio'n galed dros yr Eisteddfod, mae Eleri yn gobeithio bydd amser gyda hi i fwynhau rhai o berfformiadau'r wythnos.

Meddai Eleri: "Fi'n dwlu ar Dalwrn y Beirdd a fi'n ddwlu a bod yn y pafiliwn - ond sai wedi bod yn y pafiliwn yn y ffordd draddodiadol ers blynydde felly dwi'n gobeithio caf fi gyfle i fynd mewn jysd i gael blas ohono fe."

Ymunwch ag Eleri Siôn a gweddill y tîm cyflwyno sy'n cynnwys Tudur Owen, Heledd Cynwal, Mirain Iwerydd, Nia Roberts, Dot Davies a Dylan Ebenezer bob dydd am holl gyffro Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022.

DIWEDD

21.07.2022

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Eisteddfod 2022 brings back wonderful memories for Eleri

The popular and lively presenter Eleri Siôn will be going back to her roots as she joins S4C's presenting team for this year's Ceredigion Eisteddfod which begins on Friday, 29 July.

From Saturday, 30 July to Saturday, 6 August, Eleri, who is originally from Ceredigion, will be out on the maes from 10.00am in the morning to 6.00pm in the evening bringing S4C viewers all the latest gossip from the Eisteddfod in Tregaron.

"I'm so excited that the National Eisteddfod is in Ceredigion. I never thought I would be part of the Eisteddfod in any way," said Eleri. "So when I got the call asking if I would like to be part of the presenting team, well, obviously I had to say yes!"

"I'm going to be a roving reporter," said Eleri. "I don't want to talk about a cerdd dant poetry group or a recital group; I want to speak to people – that's what I want to do."

Eleri is an old hand at wandering the maes and meeting all sorts of fun and interesting people.

"For years, I used to do the role I'll be doing in the Eisteddfod in Tregaron for Radio Cymru. I had to wear this huge backpack with a CB radio aerial – I was like Ghostbusters! I hit somebody every time I turned round – it was a health and safety hazard.

"But I won't have to wear that this time which shows how much technology has changed over the years. It's going to be lovely – but I hope they don't work me too hard!"

Eleri is very familiar with Tregaron because her mum comes from the area.

"So Tregaron is almost like a cultural centre for me and there's an element of nostalgia too because many of my childhood memories come from there and being brought up with eisteddfodau."

Eleri says that eisteddfodau have played a big part in her life – not only the major eisteddfodau such as the Urdd and the National but the smaller local ones too.

"My brother (Meilyr Siôn) and I were brought up with eisteddfodau," said Eleri. "I know I am quite flippant in the way that I talk but there's more culture flowing through these old veins that I sometimes let on."

So what was Eleri's speciality in the eisteddfodau? "Everything! They talk about a heptathlon or decathlon in the Olympics? Well, I recited, I sang, did folk dancing, cerdd dant – I would even play the piano – and I hated playing the piano!"

“I remember being in Maenclochog eisteddfod on the stage – I hadn’t practised enough – and in the middle of my short performance I lost my place and swore! I would try everything. I even, in some eisteddfodau, entered the handwriting competition – that’s how desperate I was for a medal or cash!”

Although Eleri will be working hard during the Eisteddfod, Eleri hopes that she will have time to enjoy some of the week’s performances.

Eleri said: “I love ‘Talwrn y Beirdd’ and I love being in the pavilion – but I haven’t been into the pavilion in a traditional sense for years so I hope I will have a chance to go in and just get a taste of it.”

Join Eleri Siôn and the rest of the presenting team including Tudur Owen, Heledd Cynwal, Mirain Iwerydd, Nia Roberts, Dot Davies and Dylan Ebenezer every day for all the excitement of the Ceredigion National Eisteddfod 2022.

DIWEDD